**Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Trefniadau Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed**
**Canllawiau i Diwtoriaid a Dysgwyr**
**Medi 2021**

---

## Polisi

Mae'r Brifysgol yn cydnabod fod ganddi ddyletswydd tuag at bobl sy'n agored i niwed sydd ar dir y Brifysgol neu yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n agored i niwed sy'n aelodau o staff, myfyrwyr, a gwirfoddolwyr, contractwyr allanol, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd a'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil.

Ceir copi llawn o bolisi a phrotocolau Prifysgol Aberystwyth yma.

## Adrodd

Rhaid adrodd am bob pryder a digwyddiad sy'n ymwneud â phobl sy'n agored i niwed. Dylid adrodd amdanynt cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'n hanfodol bod hyd yn oed mân bryderon yn cael eu hadrodd i unigolyn canolog er mwyn sicrhau darlun mor llawn ag y bo modd yn achos pryderon neu ddigwyddiadau mawr.

**Os ydych yn credu bod y risg i unigolyn bregus yn un dybryd a difrifol, dylech gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn syth**, a rhoi gwybod i'r Swyddog Adrodd Dynodedig cyn gynted â phosibl.

Os oes gennych chi gonsyrn neu ddigwyddiad i adrodd amdano, dylech adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Adrodd Dynodedig.

| Cysylltwch â Swyddog Adrodd Dynodedig Prifysgol Aberystwyth<br><br>student-support@aber.ac.uk |
|---|

**Ceir rhagor o wybodaeth a chyngor drwy gysylltu ag aelod o'r Tim Dysgu Cymraeg**

| | |
|---|---|
| Pennaeth Dysgu Cymraeg | Siôn Meredith: stm@aber.ac.uk |
| Cydlynydd Ceredigion | Meryl Evans: mee25@aber.ac.uk |
| Cydlynydd De Powys a Sir Gâr | Anika Lloyd: ail@aber.ac.uk |
| Cydlynydd Gogledd Powys | Debbie Gilbert: dlg3@aber.ac.uk |
| Cydlynydd Cymraeg yn y Gweithle | Susan Evans: sae20@aber.ac.uk |
| Cydlynydd Cymraeg yn y Cartref | Olwen Morus: olm25@aber.ac.uk |
| Cydlynydd Cwrs Haf Dwys | Felicity Roberts: afr@aber.ac.uk |

# Diogelu

## plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed

---

### CANLLAW ARFER DA

- **DELIWCH** â phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed gyda pharch
- **OSGOWCH** ymddygiad amhriodol ar lafar neu mewn gweithred
- **HERIWCH** ymddygiad annerbyniol
- **PARCHWCH** hawliau unigolion i breifatrwydd ac urddas
- **BYDDWCH YN OFALUS** wrth drafod materion sensitif gyda phlant, pobl ifanc, oedolion sy'n agored i niwed a rheini/cynhalwyr
- **CYSYLLTWCH** â Swyddog Adrodd Prifysgol Aberystwyth

### YMATEB I DDATGELIAD

- **GWRANDEWCH** a pharhewch i wrando
- **ESBONIWCH** beth fydd yn digwydd nesaf
- **RHOWCH WYBOD** am bob honiad/amheuaeth o gam-drin i Swyddog Adrodd Prifysgol Aberystwyth (manylion cyswllt isod)
- **MYNNWCH** gymorth gan staff meddygol, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os oes perygl uniongyrchol
- **COFNODWCH** fanylion ar Ffurflen Ddiogelwch Prifysgol Aberystwyth cyn gynted ag sy'n bosibl.
- **PEIDIWCH** â chwestiynu nac ymchwilio
- **PEIDIWCH** â barnu na dod i gasgliadau
- **PEIDIWCH** ag addo cyfrinachedd
- **PEIDIWCH** â bod yn negyddol tuag at blant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed sydd eisiau siarad â chi am agweddau neu ymddygiad pobl eraill
- **PEIDIWCH** â bod ar eich pen eich hun â phlant, pobl ifanc nac oedolion agored i niwed